PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 29 TACHWEDD 2022

Yn bressenol:

Gavin McArthur, David Price, Dr. Janet Wademan,

Cyng Carr, Lewis, Moultrie, Waldron a/ac Williams

49 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Hugh Thomas a’r Cynghorwyr Goodway a Palmer.

50 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

51 : COFNODION

Gohiriwyd tan 29 Ionawr 2023.

52 : DIWEDDARIAD ARIANNOL

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ddiweddariad ar lafar ar y sefyllfa ariannol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y sefyllfa ym Mis 6 wedi cael ei hadrodd i'r Cabinet a bod y sefyllfa ariannol yn parhau’n heriol. Mae dyfarniadau cyflog staff wedi cael eu derbyn ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnal sefyllfa gytbwys erbyn diwedd y flwyddyn.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai ffigur setliad cyllideb dros dro 2023/24 yn cael ei gyhoeddi ar 13 Rhagfyr 2022. Disgwylir bwlch cyllidebol disgwyliedig o oddeutu £53 miliwn ac mae cynigion cyllideb yn cael eu paratoi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd y ffigur setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi ddiwedd mis Chwefror.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

53 : ADOLYGIAD RHEOLI GWASTRAFF DILYNOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried adroddiad Archwilio Cymru a gyhoeddwyd mewn perthynas â pherfformiad ailgylchu ac i ystyried ymateb rheolwyr yr awdurdod.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y gwasanaeth rheoli gwastraff wedi cael adolygiad llywodraethu ac archwilio sylweddol ers 2017/18. Arweiniodd gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol at 92 o gamau archwilio, gyda 51 o gamau archwilio pellach yn

deillio o archwiliadau dilynol pellach. Mae gwaith wedi symud ymlaen ac erbyn hyn dim ond pum cam archwilio mewnol heb eu cwblhau sydd gan y gwasanaeth. Disgwylir i'r rhain gael eu cau erbyn mis Rhagfyr 2022.

Ym mis Mawrth 2020, cwblhaodd Archwilio Cymru adolygiad o gynlluniau'r Cyngor i leihau gwastraff a bwrw'r targedau ailgylchu cenedlaethol. Yn ystod yr adolygiad hwn, nododd Archwilio Cymru fod gwaith wedi dechrau gyda'r Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau (RGGA), Partneriaethau Lleol a Llywodraeth Cymru i edrych ar fodel gweithredu i lywio'r gwaith o ddatblygu dull priodol yng Nghaerdydd. Cyflwynwyd gohebiaeth gan Archwilio Cymru (Atodiad A) i Gyngor Caerdydd gyda nifer o ystyriaethau a wnaed i'r Cyngor o ran datblygu'r Strategaeth Ailgylchu Gwastraff. Roedd yr ystyriaethau a dderbyniwyd gan yr awdurdod i'w gweld yn yr adroddiad.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cyngor wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r RGGA er mwyn dangos ei ymrwymiad i fwrw'r targedau statudol. Cynhaliwyd cynllun peilot ailgylchu wedi'i wahanu gyda ym mis Ionawr 2022 ynghyd â dadansoddiad cyfansoddiadol o wastraff cartref a masnach yng Nghaerdydd. Gwnaeth canfyddiadau'r ymarferion hyn lywio'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Ailgylchu newydd a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Medi 2022.

Ym mis Mawrth 2022 gwnaeth Archwilio Cymru gynnal adolygiad dilynol o gynlluniau'r Cyngor i leihau gwastraff a gwella ei berfformiad ailgylchu er mwyn bwrw'r targedau ailgylchu cenedlaethol. Cytunwyd ar yr holl argymhellion ac atodwyd copi o'r adroddiad ac ymateb rheolwyr i'r adroddiad.

Croesawodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd a swyddogion o'r Gwasanaeth Rheoli Gwastraff i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y Cyfarwyddwr i roi cyflwyniad. Croesawodd y Cadeirydd hefyd Ian Phillips o Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Gwahoddwyd Mr Phillips i gyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

Cafodd yr Aelodau wahoddiad i wneud sylwadau, i geisio eglurhad neu i ofyn cwestiynau am yr adroddiad. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr argymhellion yn yr adroddiad ar yr adolygiad wedi'u derbyn. Mae'r Strategaeth Ailgylchu wedi cael ei lansio ers hynny ac mae cyfraddau ailgylchu wedi gwella dros y ddau chwarter diwethaf. Nod y Strategaeth Ailgylchu yw cyrraedd cyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2025 ac roedd y Cyfarwyddwr o'r farn bod y gwasanaeth ar y trywydd cywir i fwrw'r targed hwnnw.

- Gofynnodd yr Aelodau am fwy o fanylion am y strwythurau llywodraethu a oedd ar waith a fyddai'n cefnogi'r gwaith o weithredu'r strategaeth. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Rhaglen rheolaidd rhwng y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid, y Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd a rheolwyr gweithredol, sy'n anelu at weithredu model darparu gwasanaethau cynaliadwy a fydd yn cyflawni'r strategaeth. Mae'r Bwrdd Rhaglen yn cyflwyno adroddiad i'r uwch dîm rheoli bob chwe wythnos. Mae Timau Prosiect yn cyflwyno agweddau ar y strategaeth ac mae Timau Rheoli hefyd yn cyfarfod bob mis i adolygu pob agwedd ar berfformiad. Mae diweddariadau rheolaidd hefyd yn cael eu rhoi i'r Cabinet a'r swyddogaeth Craffu. Mae swyddogion Cyllid Corfforaethol hefyd yn rhan o'r timau prosiect er mwyn nodi materion yn gynnar.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar berthynas waith y Cyngor â'r RGGA ac a oedd y RGGA yn cael ei chynrychioli o ran rheoli prosiectau, fel yr awgrymwyd yn adroddiad Archwilio Cymru. Dywedodd y swyddogion fod cyfarfodydd bob pythefnos yn cael eu cynnal gyda chynrychiolwyr o'r RGGA i drafod y pedwar prosiect craidd a restrwyd yn yr adroddiad. Nid yw'r RGGA yn mynychu cyfarfodydd bwrdd prosiect ond mae cynrychiolwyr mewnol y bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd prosiectau. Partneriaeth anffurfiol yw'r berthynas gyda'r RGGA. Gofynnodd yr Aelodau a oedd cyfyngiadau ar y gwaith y byddai'r RGGA yn ei wneud ar ran y Cyngor gan mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am y rhwymedigaethau statudol. Dywedodd y swyddogion fod y RGGA yn hwyluso adborth ar berfformiad yr awdurdod i Lywodraeth Cymru ac yn rhoi cyngor arbenigol ar faterion rheoli gwastraff.

- Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod perfformiad ailgylchu gwastraff yn cael ei fesur yn gywir a gofynnon nhw hefyd am fwy o fanylion am y prosesau a ddefnyddir i wirio cywirdeb y ffigurau ailgylchu. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod data yn cael ei fewnbynnu i system llif data sy'n cael ei monitro a'i harchwilio gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae llawer o ffydd yng nghywirdeb y ffigurau ac mae'r un system yn cael ei defnyddio ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

- Gofynnwyd i Archwilio Cymru gadarnhau bod cyfraddau ailgylchu Caerdydd yn debyg i rai awdurdodau lleol eraill Cymru. Cadarnhaodd Archwilio Cymru fod y ffigyrau perfformiad ailgylchu yn debyg.

- Gofynnodd yr Aelodau pa gyfran o wastraff yr awdurdodau sy'n dod o fusnesau masnachol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod 126,000 o dunellau o wastraff yn cael eu casglu o eiddo preswyl a bod 35,500 o dunellau yn cael eu casglu gan gwsmeriaid masnachol. Yn 2023 daw newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob busnes masnachol ailgylchu i rym. Mae gan Gyngor Caerdydd oddeutu 3000 o gontractau casglu gwastraff masnachol ar waith ar hyn o bryd.

- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r cyfyngiad a roddwyd ar waith yng Nghanolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGCau) yn ystod pandemig Covid yn cael ei godi ac a fyddai hyn yn arwain at ostyngiad mewn achosion o dipio anghyfreithlon. Dywedodd y swyddogion fod y cyfyngiadau - sef polisi dim bagiau du a system trefnu ymweliad - wedi arwain at newid sylweddol yn yr ailgylchu'n cael ei gyflwyno a bod y perfformiad ailgylchu cyfan wedi cynyddu o 60% i 85%. Roedd cynnydd o 100% hefyd yn yr incwm o wastraff masnach. Felly, bydd y mesurau rheoli'n cael eu cadw.

- Nododd yr Aelodau fod y canfyddiadau yn adroddiad Archwilio Cymru yn gyffredinol yn cefnogi gwaith sy'n mynd rhagddo, yn enwedig o ran ailgylchu. Gofynnodd yr Aelodau i Archwilio Cymru wneud sylwadau ar yr hyn y gallai'r Pwyllgor fod yn ei wneud i roi sicrwydd bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei chymhwyso'n gyson ar draws meysydd datblygu polisi. Dywedodd Ian

Phillips (IP) o Archwilio Cymru fod disgwyl y bydd egwyddorion datblygu cynaliadwy yn sbarduno polisi ar draws pob gwasanaeth.  O ran yr adroddiad gwastraff, mae argymhelliad 4 a pharagraff 33 yn ymwneud â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.  Mae paragraff 33 yn rhoi adborth ar ble y gellid cryfhau egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yr enghreifftiau oedd dull mwy integredig rhwng y tîm datgarboneiddio a rheoli gwastraff, rhwng cynllunio a rheoli gwastraff; a chynnwys cymunedau mewn mentrau atal gwastraff a lleihau gwastraff.  I ateb cwestiwn am yr hyn y gall y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei wneud, awgrymodd IP o Archwilio Cymru y dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol o'r 'pum ffordd o weithio' a ddisgrifir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol a sut i herio swyddogion ar gymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy ond awgrymodd y dylid ystyried hyfforddiant pellach ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn benodol.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd proses fwy generig y gellid ei gweithredu ar draws y Cyngor sy'n sicrhau bod egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu hymgorffori mewn polisi a strategaeth.  Dywedodd y Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd fod rhaglen hyfforddiant ar draws meysydd asesu polisi wedi'i chynnal.  Mae'r gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru yn y maes hwn yn cael ei gydnabod yn gorfforaethol a bydd yn rhan o bob penderfyniad yn y dyfodol.  Bydd angen adroddiadau cabinet ac adroddiadau penderfyniad swyddogion i gael yr asesiad polisi perthnasol yn rhan o'r broses honno.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

54 : ADOLYGIAD HAMDDEN DILYNOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan Archwilio Cymru ar gynnydd y Cyngor o ran bodloni'r cynigion am welliant a wnaed yn eu hadroddiad ar yr Adolygiad o Wasanaethau Hamdden yn 2020 ac i ystyried yr ymateb gan reolwyr.

Gwahoddodd y Cadeirydd Samantha Clements o Archwilio Cymru i gyflwyno'r adroddiad gan gynnwys crynodeb o’r canfyddiadau.  Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Archwilio Cymru yn cydnabod bod y Cyngor a'r GLL yn gweithio'n adeiladol i fynd i'r afael â goblygiadau digynsail a sylweddol pandemig COVID19 a'r argyfwng costau byw.

Gwahoddwyd y swyddogion i roi cyflwyniad byr ar yr ymateb gan reolwyr i argymhellion yr adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Archwilio Cymru ym mis Hydref 2020 wedi adrodd ar ganfyddiadau eu hadolygiad o'r gwasanaethau hamdden a ddarperir gan Greenwich Leisure Ltd (GLL) a sut y maent yn cyfrannu at gyflawni amcanion lles y Cyngor. Atodwyd copi o adroddiad Archwilio Cymru yn Atodiad E.

Roedd canfyddiadau'r adolygiad uchod yn seiliedig ar y gwaith maes wedi’i wneud cyn pandemig COVID19.  Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y Cyngor wedi cyflawni ei nod allweddol o gadw ei ganolfannau hamdden ar agor ond roedd lle i'r Cyngor

gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn well a chryfhau trefniadau i roi sicrwydd i'w hun bod ei gontract gyda GLL yn rhoi gwerth am arian.

Cafodd y Contract Gwasanaethau Hamdden ei adolygu wedyn hefyd gan y Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant a chan y Cabinet. At hynny, er mwyn lliniaru costau ynni uwch, cytunwyd mewn egwyddor y bydd y Cyngor yn gwneud taliadau rhyddhad i GLL ac yn galluogi GLL i gaffael eu hegni ar gyfradd ratach naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy Wasanaeth Masnachol y Goron.

Cafodd adolygiad dilynol ei gynnal gan Archwilio Cymru yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2022 i asesu cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â chwe chynnig am welliant a wnaed yn adroddiad 2020. Cytunwyd ar bob argymhelliad. Atodwyd yr ymateb gan reolwyr yn Atodiad B.

Gwahoddodd y Cadeirydd Samantha Clements o Archwilio Cymru i gyflwyno'r adroddiad gan gynnwys crynodeb o'r canfyddiadau. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Archwilio Cymru yn cydnabod bod y Cyngor a'r GLL yn gweithio'n adeiladol i fynd i'r afael â goblygiadau digynsail a sylweddol pandemig COVID19 a'r argyfwng costau byw.

Cafodd yr Aelodau wahoddiad i wneud sylwadau, i geisio eglurhad neu i ofyn cwestiynau am yr adroddiad. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelod i Archwilio Cymru a oedd y datganiad yn yr adroddiad mewn perthynas â 'gwybodaeth ariannol gyfyngedig' a dderbyniwyd gan Archwilio Cymru gan GLL yn cyfeirio'n benodol at y wybodaeth am ragolygon ariannol tymor canolig yn unig neu a oedd yn cynnwys gwybodaeth ariannol arall. Dywedodd Sara-Jane Byrne o Archwilio Cymru fod adroddiad Archwilio Cymru wedi ei gyhoeddi cyn i fwy o wybodaeth gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant. Felly, roedd y datganiad yn cyfeirio at 'wybodaeth ariannol gyfyngedig' yn ymwneud â'r rhagolygon ariannol tymor canolig a gwybodaeth ariannol arall.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

55 : ADRODDIAD CRYNO GWAITH SICRWYDD AC ASESU RISG

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad yn crynhoi'r gwaith o ran sicrwydd ac asesu risg a wnaed gan Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn. Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad a gyflwynodd yr adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr adroddiad wedi dod i law ar 17 Tachwedd 2022. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod ymateb rheolwyr i'r adroddiad yn cael ei ddrafftio, fodd bynnag, nid oedd yr uwch dîm rheoli wedi nodi unrhyw faterion o bryder hyd yma wrth ystyried yr adroddiad.

Cyflwynodd Sara-Jane Byrne adroddiad Archwilio Cymru a rhoddodd grynodeb o'r prosiectau sicrwydd ac asesu risg allweddol. Cynhaliwyd y tri maes yn yr adroddiad -

sefyllfa ariannol; goblygiadau’r Ddeddf Etholiadau Llywodraeth Leol; a chynlluniau lleihau carbon; ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Cafodd yr Aelodau wahoddiad i wneud sylwadau, i geisio eglurhad neu i ofyn cwestiynau am yr adroddiad.  Mae’r trafodaethau hynny wedi’u crynhoi isod:

- Dywedodd y Cadeirydd y byddai adroddiadau Archwilio Cymru yn ddelfrydol yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd â'r ymateb gan reolwyr yn y dyfodol.

- Gwnaeth Aelod sylwadau ar Arddangosyn 1 yn yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion am swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn awdurdodau lleol Cymru.  Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai ystod o'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn fwy buddiol na'r gymhariaeth safle yn yr adroddiad.

- Cyfeiriodd Aelod at gyfeiriadau yn Strategaeth Caerdydd Un Blaned - yn canolbwyntio ar 'leihau carbon' a chyfeiriadau yn adroddiad Archwilio Cymru at 'sero net' a gofynnodd ai dyma'r un peth.  Dywedodd Sara-Jane Byrne mai ei dealltwriaeth hi oedd bod hyn yn cyfeirio at ddatgarboneiddio a chytunodd i roi eglurhad pellach ar y pwynt hwn yn ysgrifenedig.

- Nododd Aelod fod nifer o'r adroddiadau a gyflwynwyd yn y cyfarfod yn cymeradwyo'r dulliau sy'n cael eu gweithredu gan yr awdurdod o ran cymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy ar draws ystod o wasanaethau.  Gofynnodd yr Aelod pa wiriadau a sicrwydd y gallai'r Pwyllgor ddisgwyl eu gweld yn y dyfodol i sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn parhau i gael eu cymhwyso.  Dywedodd y Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau fod llawer o waith wedi'i wneud i gynyddu gwybodaeth sefydliadol am yr hyn a olygir ac a ddisgwylir.  Mae canllawiau sylweddol ar gael ar gyfer datblygu polisi a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys porth polisi sy'n cynnwys gwybodaeth am feddwl hirdymor, y ffordd orau o ddefnyddio data a dulliau ataliol, disgwyliadau ynghylch ymgysylltu, ac ati.  Mae asesiad integredig sengl o benderfyniadau hefyd wedi'i gyflwyno sy'n cynnwys asesiadau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, goblygiadau polisi, asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb, asesiadau o’r effaith ar blant, asesiadau iaith Gymraeg ac ystod o asesiadau o’r effaith amgylcheddol.

- Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai angen i'r Pwyllgor fod yn sicr bod yr ymrwymiadau a ddisgrifir uchod yn cael eu gweithredu.  Cytunodd y Pennaeth Perfformiad i ailedrych ar ble y gellir gwella sicrwydd y tu hwnt i'r Asesiad Integredig Sengl.

- Roedd Aelod o’r farn y dylid mynd i'r afael â'r defnydd strategol o gronfeydd wrth gefn a'r goblygiadau adnoddau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 45 yr adroddiad yn yr ymateb gan reolwyr.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

56 : ADRODDIAD CYFUNOL LLAMU YMLAEN

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad Archwilio Cymru ar weithlu ac asedau'r Cyngor. Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad a gyflwynodd yr eitem. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod ymateb gan reolwyr i'r adroddiad yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ac y disgwylid iddo gael ei gyflwyno maes o law.

Cyflwynodd Samantha Clements o Archwilio Cymru yr adroddiad.

- Cyfeiriodd Aelod at sylwadau yn yr adroddiad mewn perthynas â 'chynnydd gwerthfawr' a gofynnodd a ellid rhoi mwy o wybodaeth o ran nodi'n union beth yw'r cynnydd gwerthfawr hwnnw. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr adroddiad yn nodi bod cynnydd gwerthfawr wedi'i wneud o ran ymgorffori gweithio hybrid a chyflawni strategaeth eiddo.

- Wrth ymateb i bwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor, derbyniodd y Pennaeth Perfformiad fod yr adroddiad yn canmol y gwaith a wnaed o ran ymgynghori ac ymgysylltu â staff ond roedd angen mwy o waith o ran ymgynghori ac ymgysylltu â phartneriaid a'r cyhoedd. Bydd yr ymateb gan reolwyr yn mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad

57 : Y RHAGLEN WAITH A DIWEDDARIAD AR AMSERLEN

Cyflwynodd Sara-Jane Byrne yr adroddiad. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi, o ran y datganiad cyfrifon ar gyfer 2021/22, fod yr adroddiad yn nodi bod amserlen y rhaglen waith yn nodi y byddai barn ar y cyfrifon yn cael ei chyflwyno ym mis Rhagfyr 2022. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei symud i fis Ionawr 2023 ledled Cymru.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

58 : Y TÎM YMCHWILIO AC ARCHWILIO - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn rhoi i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddiweddariad ar waith a pherfformiad y Timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol. Roedd yr adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2022.

Atgoffwyd yr Aelodau fod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Siarter Archwilio a’r Cynllun Archwilio ar Sail Risg ar gyfer 2022/23 ar 15 Mawrth 2022. Rhoddodd yr Adroddiad ar Gynnydd Archwilio Mewnol yn Atodiad 1 yr adroddiad fanylion perfformiad mewn perthynas â'r Cynllun Archwilio Mewnol a rhoddodd grynodeb o’r gwaith a wnaed, yr argymhellion blaenoriaeth a godwyd, y canfyddiadau critigol, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a chanfyddiadau gwerth am arian perthnasol ar draws y Cyngor er sicrwydd y

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi nad oes unrhyw farn archwilio 'anfoddhaol' wedi'i darparu dros y cyfnod adrodd.

Canolbwyntiodd Adroddiad Cynnydd y Tîm Ymchwilio yn Atodiad 2 ar weithgareddau rhagweithiol ac adweithiol ynghylch ymwybyddiaeth o dwyll, ei ganfod ac ymchwilio iddo, gan gynnwys cymryd rhan mewn mentrau, fel ymarferion paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol (MTG).

Dywedodd y Rheolwr Archwilio nad yw wedi bod yn bosib penodi i'r swydd Uwch Archwiliwr wag. Felly, penderfynwyd ychwanegu Prif Archwiliwr ychwanegol ar Radd 9 i'r strwythur. Byddai swyddi gwag yn cael eu rhyddhau gan sicrhau arbediad cyffredinol o £15,000 yn y flwyddyn ariannol nesaf. Byddai'r ailstrwythuro yn sicrhau adnoddau rheoli ychwanegol. Roedd contractwyr arbenigol hefyd yn cael eu defnyddio i gynnal pedwar archwiliad arbenigol i gefnogi gwaith y tîm mewnol.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y swyddogion yn hyderus y byddai'r swydd Prif Archwiliwr yn cael ei llenwi, o ystyried yr anawsterau wrth benodi Uwch Archwiliwr. Derbyniodd y Rheolwr Archwilio fod anawsterau denu ymgeiswyr addas. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau nad oedd y methiant i benodi i'r swydd wag yn golygu bod y tîm presennol yn cario llwyth gwaith ychwanegol, ond yn hytrach dull wedi'i flaenoriaethu i gyflawni'r cynllun er mwyn sicrhau'r sicrwydd mwyaf posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Gofynnodd Aelod a oedd yr amserlenni a osodwyd ar gyfer gweithredu argymhellion archwilio yn realistig. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod rheolwyr yn pennu'r amserlenni ar gyfer ymateb i argymhellion.

Bydd Archwilio Mewnol yn trafod ymatebion i argymhellion ac os ystyrir eu bod yn rhy optimistaidd yna amlygir hyn. Fodd bynnag, yn y pen draw, cyfrifoldeb rheolwyr yw gweithredu ar argymhellion.

Nododd y Pwyllgor y casgliadau cadarnhaol gan fwyaf o'r adroddiadau.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

## 59 : CWYNION I'R CYNGOR - ADRODDIAD CANOL Y FLWYDDYN

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad i alluogi'r Aelodau i adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol.

Gwahoddwyd Isabelle Bignall, Prif Swyddog Digidol i gyflwyno'r adroddiad cwynion canol y flwyddyn. Mae cyfanswm o 1,348 o gwynion wedi dod i law yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn - ac ymatebwyd i 69.4% ohonynt o fewn y targed 20 diwrnod gwaith. O ran y cwynion eraill, ymatebwyd i 28.8% o fewn 3 mis.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Rheolwr Prosiect sy'n gyfrifol am gyflwyno'r system ymdrin â chwynion newydd wedi gadael yr awdurdod ac nad oedd adnoddau ar gyfer llenwi ei swydd ar gael eto. Ni fu unrhyw effaith ar y gallu i ymateb i gwynion

o ddydd i ddydd.  Fodd bynnag, bydd angen ailedrych ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r system newydd.

Tynnwyd sylw at y cynnydd allweddol a wnaed ar y prosiect, gan gynnwys hyfforddiant a datblygu tudalen we.  Roedd cydweithwyr yng Nghymorth Cabinet, Gwastraff a Gwasanaethau Oedolion wrthi'n treialu'r system.

Cyflwynwyd y dangosyddion perfformiad allweddol (DPA).  Nid oedd y DPA wedi'u cadarnhau eto gan Fwrdd Halo.  Fodd bynnag, cyhoeddodd swyddfa'r Ombwdsmon ei DPA ei hun yn ddiweddar ac efallai y bydd angen ystyried alinio â DPA yr Ombwdsmon yn y dyfodol.

Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion sut roedd cwynion yn helpu i lywio dysgu sefydliadol a'r gwaith o wella gwasanaethau.

Nododd yr Aelodau y gwahaniaethau rhwng categoreiddio cwynion a ddefnyddir gan yr awdurdod a chan yr Ombwdsmon.  Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'n ddefnyddiol cael gwell dealltwriaeth o sut mae'r Ombwdsmon yn categoreiddio cwynion ac a fyddai'n bosibl cynnal trafodaethau gyda'r Ombwdsmon gyda'r bwriad o gyhoeddi'r data ar gwynion yng Nghaerdydd mewn ffordd fwy defnyddiol.

Dywedodd y swyddogion y byddai'n bosib cynnwys cyfeiriad at gategoreiddio'r awdurdod a chategoreiddio'r Ombwdsmon mewn adroddiadau yn y dyfodol. Dywedwyd hefyd y byddai hyn yn cael ei godi fel pwynt agenda yn y cyfarfod chwarterol nesaf rhwng yr Ombwdsmon a'r 22 awdurdod lleol arall yng Nghymru. Mae'r pwynt wedi cael ei godi'n flaenorol, a bryd hynny roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod angen i'w gategoreiddio weithio ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Roedd yr Aelodau hefyd o'r farn y dylid ymestyn dysgu sefydliadol hefyd i ystyried cwynion a gyfeirir at yr Ombwdsmon.  Dywedodd y swyddogion fod dolen adborth ar waith.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

60 : RHEOLI RISG GORFFORAETHOL 2022/23 (CANOL Y FLWYDDYN)

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad Rheoli Risg Gorfforaethol Canol y Flwyddyn ar gyfer Chwarter 2 2022/23.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod y risgiau ar gyfer gwydnwch ariannol a monitro cyllideb wedi cynyddu yn ystod y cyfnod.

Roedd Aelod o'r farn bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol i bob golwg yn rhestru'r holl brif feysydd cyfrifoldeb ar gyfer y Cyngor.  Er enghraifft, gellid dehongli nad yw methu â chyflawni perfformiad i fwrw targedau ailgylchu statudol yn risg gan nad oes ansicrwydd.  Felly, nid yw methu â bwrw'r targedau statudol yn risg.  Mae'n fater a dylid ei reoli yn unol â hynny.  Croesawodd y swyddogion yr adborth a chytunon nhw i fyfyrio ar y sylwadau a godwyd.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

61 : CAMAU GWEITHREDU HEB EU CYFLAWNI

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

62 : GOHEBIAETH

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

63 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

64 : MATERION BRYS (OS O GWBL)

Dim eitemau brys.

65 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF.

Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 24 Ionawr 2023

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm